Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration Panel for Wales

Bod yn Gynghorydd Cymuned a Thref

# Gwerthfawrogi ac annog eich cyfraniad

Mae cynghorwyr tref a chymuned yn llofnodi datganiad derbyn swydd ar gael eu hethol neu wrth gael eu penodi - felly maent yn rhan o strwythur llywodraeth leol Cymru. Er eu bod yn ysgwyddo nifer o weithgareddau cymunedol ar sail wirfoddol, nid ydynt yn wirfoddolwyr.

## A fyddaf yn derbyn taliadau blynyddol fel Cynghorydd Tref neu Gymuned?

Mae gennych hawl i dderbyn taliad o £150 y flwyddyn tuag at gostau a threuliau (ffôn, band eang, deunyddiau ysgrifennu ac ati) wrth wasanaethu eich cymuned. Os byddwch yn ysgwyddo cyfrifoldebau penodol ychwanegol, mae'n bosibl y bydd taliadau pellach ar gael: gall maer/pennaeth dinesig dderbyn taliad o hyd at £1500, gall dirprwy faer/bennaeth dinesig gael hyd at £500 a gall swyddi eraill (arweinydd, cadeirydd neu gydlynydd maes polisi penodol) gael hyd at £500.

Gall cynghorau hefyd dalu lwfans colled ariannol a chostau teithio a chynhaliaeth wrth ymgymryd â dyletswyddau cymeradwy. (Gall aelodau gweithrediaethau prif awdurdodau sydd hefyd yn gynghorwyr tref neu gymuned dderbyn costau teithio a chynhaliaeth ac ad-daliadau costau gofal yn unig).

Os oes gennych anghenion cymorth personol neu gyfrifoldebau gofal dros blant neu eraill sy'n dibynnu arnoch, rhaid i'r cyngor ad-dalu costau darparu gofal (os byddwch yn eu hawlio) er mwyn eich galluogi i ysgwyddo dyletswyddau cymeradwy. Rhaid cyflwyno derbynebau er mwyn cael ad-daliad. Mae terfyn misol unigol ar gyfer y taliad hwn, sef £403 ar hyn o bryd.

## Beth yw'r rheswm dros y taliadau hyn?

Dylai aelodaeth cynghorau adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth y mae'n ei chynrychioli. Mewn nifer o gynghorau, ni cheir cynrychiolaeth deg o fenywod, pobl iau na phobl â chyfrifoldebau gofal neu anghenion personol. Hefyd mae nifer sylweddol o aelodau yn cael eu hethol yn ddiwrthwynebiad. Mae'r taliadau hyn ar gael i annog pobl eraill i sefyll etholiad, pobl a fyddai fel arall o bosib yn cael eu rhwystro rhag bod yn gynghorydd cymuned neu gynghorydd tref ar sail costau.

## Oes rhaid i mi dderbyn y taliadau hyn?

Nac oes. Gallwch optio allan yn ffurfiol rhag derbyn unrhyw daliadau neu'r cyfan drwy ysgrifennu llythyr at glerc y cyngor i roi gwybod nad ydych yn dymuno derbyn y taliadau. Disgwylir i'r holl aelodau barchu penderfyniad cydweithwyr i gael eu talu heb roi unrhyw bwysau na cheisio dylanwadu arnynt i beidio gwneud hynny. Os byddwch yn gadael eich swydd fel cynghorydd cyn diwedd eich tymor, efallai y bydd angen i chi ad-dalu rhywfaint o'r taliadau.

## Oes angen talu treth ar y taliadau hyn?

Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau personol, gall fod angen talu trethi ar y taliadau hyn dan reolau presennol CThEM.

## A fydd manylion taliadau o'r fath yn cael eu cyhoeddi?

Erbyn mis Medi bob blwyddyn, rhaid i'r cyngor gyhoeddi holl fanylion y taliadau unigol i aelodau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Dim ond fel swm craidd y mae angen cyhoeddi'r ad-daliadau am gostau gofal – nid oes angen enwi'r unigolion sy'n eu derbyn.

## Pwy sy'n gosod y taliadau hyn?

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) sy'n gyfrifol am benderfynu ar yr holl daliadau i aelodau Cynghorau Tref a Chymuned, yn ogystal ag aelodau Prif Gynghorau a chyrff eraill.

Bob blwyddyn bydd y Panel yn cyflwyno penderfyniadau drafft ar gyfer ymgynghoriad ym mis Hydref cyn cyhoeddi adroddiad terfynol ym mis Chwefror i'w roi ar waith ar ddechrau blwyddyn y Cyngor. Mae'r **Adroddiad Blynyddol** ar gael ar wefan y Panel, ynghyd â gwybodaeth gysylltiedig, canllawiau a manylion cyswllt

Ceir holl fanylion y penderfyniadau ynghylch taliadau i gynghorwyr tref a chymuned yn Adran 13 o Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sydd i'w weld ar **wefan** y Panel.

Bwriedir i'r daflen hon roi cyngor i aelodau ac ymgeiswyr posib.

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41152